Cyllid & Thollau EM

Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth

Y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2007 i 5 Ebrill 2008

Eich enw

Eich cyfeirnod trethdalwr unigryw (UTR)

Hunanasesiad

Gallwch ddefnyddio'r Daflen Waith yn y nodiadau ar gyfer Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth i gyfrifo cyfanswm y dreth, ad-daliad Benthyciad Myfyriwr a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4 sy'n ddyledus neu wedi eu gordalu ar gyfer 2007-08. Os ydy'r canlyniad yn swm positif, nodwch y swm ym mlwch 1; os ydy'r swm yn negyddol nodwch ef ym mlwch 2

1 Cyfanswm y dreth, ad-daliad benthyciad myfyriwr a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus cyn unrhyw daliadau ar gyfrif

£ .

2 Cyfanswm y dreth, ad-daliad benthyciad myfyriwr a CYG Dosbarth 4 a ordalwyd

£ .

3 Ad-daliad benthyciad myfyriwr sy'n ddyledus

£ . 0 0

4 CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus

£ .

5 Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus

£ .

6 Codiannau pensiwn sy'n ddyledus

£ .

Treth a dan dalwyd

Os ydych yn talu treth o dan TWE, edrychwch ar eich Hysbysiad Cod TWE a blychau cymorth y cyfrifiad ar dudalen 9 y nodiadau ar gyfer Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth, yna cwblhewch flychau 7 ac 8 fel y bo'n briodol.

7 Treth a dan dalwyd ar gyfer blynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2007-08 – *nodwch y swm a ddangosir ar eich Hysbysiad Cod TWE*

£ .

8 Treth a dan dalwyd ar gyfer 2007-08 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2008-09 – *nodwch y swm a ddangosir ar eich Hysbysiad Cod TWE*

£ .

Taliadau ar gyfrif

Gwiriwch dudalen 11 yn y nodiadau ar gyfer Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth i weld a oes angen i chi wneud taliadau ar gyfrif ar gyfer 2008-09.

9 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn gwneud cais i leihau eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2008-09 – *nodwch swm gostyngol eich taliad cyntaf ym mlwch 10 a nodwch pam rydych yn gwneud y cais ym mlwch 16 dros y ddalen*

10 Eich taliad cyntaf ar gyfrif ar gyfer 2008-09 – *nodwch y swm (gan gynnwys ceiniogau)*

£ .

Gwarged y lwfans person dall a gwarged y lwfans pâr priod

Nodwch swm y lwfans sydd dros ben a drosglwyddwyd o'ch priod neu eich partner sifil.

11 Nodwch swm y lwfans person dall sydd dros ben y gallwch ei gael

£ . 0 0

12 Os cawsoch chi neu eich priod neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, nodwch swm y lwfans pâr priod sydd dros ben y gallwch ei gael

£ . 0 0

Addasiadau i'r dreth sy'n ddyledus

Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud addasiad er mwyn cynyddu neu ostwng eich treth ar gyfer 2007-08 oherwydd eich bod yn hawlio cyfartalu ar gyfer ffermwyr a chrewyr gweithiau llenyddol neu artistig, yn gwneud rhai addasiadau penodol i flynyddoedd cynharach neu'n dwyn rhai colledion penodol yn ôl i 2007-08 o 2008-09. Os bydd angen cymorth arnoch i gwblhau'r blychau hyn gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

13 Cynnydd yn y dreth sy'n ddyledus oherwydd addasiadau i flwyddyn gynharach

£ .

14 Gostyngiad yn y dreth sy'n ddyledus oherwydd addasiadau i flwyddyn gynharach

£ .

15 Unrhyw ad-daliad ar gyfer 2008-09 rydych yn ei hawlio nawr

£ .

Unrhyw wybodaeth arall

16 Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon